Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd trwy drefniant hybrid ar
**ddydd Mercher, 08 Mawrth 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Ceris Jones, Chris James, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Siân Maehrlein, Mark Strong a Carl Worrall

**Hefyd yn bresennol**: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu), Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, Gogledd, Mr Sam Pugh, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – De, Mrs Ffion Lloyd, Cyfreithiwr a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am-11:10am)

**1 Personol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

**2 Ymddiheuriadau**

Roedd y Cynghorydd Marc Davies wedi ymddiheuro nad oedd modd iddo fynychu'r cyfarfod.

**3 Datgan Buddiannau Personol a/neu Fuddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

**4 Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 08 Chwefror 2023**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Chwefror 2023 yn gywir

**Materion yn codi**

Eitem 5- A220511 Codi annedd fforddiadwy, Lleine, Ferwig, Aberteifi- Adroddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, y cafwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn ystod y dau ddiwrnod diwethaf, sy'n rhoi cyfarwyddyd i'r Cyngor beidio rhoi caniatâd cynllunio heb sicrhau caniatâd Gweinidogion Cymru yn gyntaf. Nodwyd y byddai penderfyniadau a wnaethpwyd ynghylch ceisiadau wedi'u galw i mewn yn cael eu hadrodd dan eitem 8, Apeliadau pan fyddent yn cyrraedd.

**5 Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio ar y ceisiadau cynllunio a ganlyn a ystyriwyd mewn cyfarfod blaenorol ac yr oedd angen eu hystyried ymhellach gan y Pwyllgor:-

**A200553 Codi Annedd i'r Rheolwyr, tir ger Parc Busnes Nantllan, Clarach, Aberystwyth**

**GWRTHOD** y cais am y rhesymau canlynol:-

1. Mae safle y cais wedi'i leoli mewn cefn gwlad agored, y tu allan i anheddiad sefydledig, lle y ceir tybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygiad preswyl newydd oni bai ei fod yn cyfateb ag eithriad penodol a ragnodir gan bolisi cynllunio. Fel y mae, nid yw'r cynnig yn cwympo dan eithriad o'r fath, felly ystyrir ei fod yn mynd yn groes i ddarpariaethau Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 6 a pholisïau S01 ac S04 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion.
2. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y bydd darparu annedd mawr unigol mewn lleoliad eithaf amlwg ar wahân i unrhyw adeiladau gerllaw yn cael effaith niweidiol ar gymeriad yr ardal, gan gyfateb ag ychwanegiad anghyson i'r tirlun. Mae'r cynnig yn mynd yn groes i bolisïau DM06 a DM17 y Cynllun Datblygu Lleol.

**A220097 Codi pâr o dai pâr, Isfryn, Talsarn, Llanbedr Pont Steffan**

**GWRTHOD** y cais am y rheswm canlynol:

Mae'r cais yn groes i bolisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, sy'n ceisio amddiffyn cefn gwlad agored rhag datblygiadau preswyl newydd anghynaladwy a heb gyfiawnhad, yn benodol polisi S04 y CDLl a Pholisi Cynllunio Cymru.

**6 Ceisiadau Datblygu, Hysbysebu, Statudol a'r Awdurdod Lleol**

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – y Economi ac Adfywio ynghylch Ceisiadau cynllunio datblygu, hysbysebu; statudol a'r awdurdod lleol:-

Anerchodd Mr Peter Jones (ymgeisydd) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A210757 Adeilad gwneuthuriad fan geffylau arfaethedig, gan gynnwys gosod mynediad i gerbydau a chyfleuster parod i drin carthion, Tir Gerllaw y B4338, o'r gyffordd gyda C1279 a'r gyffordd gyda C1060, Llanybydder

**CYFEIRIO'R** cais i'r Panel Archwilio Safle yn unol â Pharagraff 5 y meini prawf a fabwysiadwyd gan y Cyngor a **GOHIRIO'R** cais er mwyn caniatáu mwy o amser neu gyfnod 'callio' i ystyried y pwyntiau a fynegwyd gan Aelodau, gan gynnwys ystyried safleoedd presennol ac amgen ar gyfer y busnes er mwyn lleddfu unrhyw risgiau posibl, pe bai'r Pwyllgor yn dymuno cymeradwyo'r cais wrth iddo ei ailystyried.

---

**7 Ceisiadau Cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

PENDERFYNWYD nodi rhestr y ceisiadau cynllunio y bu i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

## 8 Apeliadau Cynllunio

CYTUNWYD nodi'r apeliadau cynllunio a oedd wedi dod i law.

**Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2023**

**Cadeirydd:-____________________**

**Dyddiad:_______________**